

PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

23 Ionawr 2019

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)

Mr A Archer, Cynghorydd P Baker, Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland

[Parc Llanion, Doc Penfro 10.00am – 12.00pm]

1. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau wrth y Cynghorydd M Evans, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd M James a'r Dr RM Plummer.

2. Datgelu buddiant

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol fuddiant yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater(ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

Cais a Chyfeirnod	Aelod(au)/Swyddog(ion)	Gweithred
<i>Cofnod 8(b)isod</i> Gorchymyn Diogelu Coed 139 Barbeque Lawn, Saundersfoot	Cynghorydd P Baker	Gadael y cyfarfod tra oedd y cais o dan ystyriaeth
<i>Cofnod 8(b)isod</i> Gorchymyn Diogelu Coed 139 Barbeque Lawn, Saundersfoot	Mr AE Sangster	Aros yn y cyfarfod a bwrw pleidlais ar y mater

3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2018 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Nodwyd y dylai Cofnodion 6(e) a 6(i) ill dau fod yn cyfeirio at ychwanegu elfen dros gyfnod i'r amod priffyrdd a gafodd ei gytuno yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2018 yn amodol ar gynnwys y diwygiad uchod.

NODWYD.



4. Hawl i siarad yn y Pwyllgor

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud (*mae'r bartïon sydd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u ceisiadau perthnasol ac yn y drefn yr oedden nhw'n annerch y Pwyllgor*):

Rhif cyfeirnod	Cynnig	Siaradwr
NP/18/0665/FUL <i>Cofnod 6(a) cyfeir</i>	Newid defnydd Dan y Garn o lety gwyliau i ddefnydd preswyl - Treleddydd Fawr, Tyddewi	Mr Christopher Kimpton - Asiant
NP/18/0665/FUL <i>Cofnod 6(d) cyfeir</i>	Datblygiad Un Blaned i gynnwys caban (carafán), tŷ gwydr ar oledd, adeilad tu fas, sgubor, twnnel poly, storfa goed, stondin - tir gyferbyn â Fachongle Isaf, Cilgwyn, Trefdraeth	Mr John Powell – Ymgeisydd
NP/18/0559/FUL <i>Cofnod 6(e) cyfeir</i>	14 uned o dai fforddiadwy, 2 dŷ ar y farchnad agored ac uwchraddio 85 o bebyll a charafanau teithio i 85 o garafanau sefydlog ynghyd â thirweddu a ffyrdd. Gorsaf bwmpio newydd - Maes Carafanau Buttyland, Heol yr Orsaf, Maenorbŷr.	Mr Gerald Blain - Asiant

5. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau

Roedd adroddiad diweddariad y Cyfreithiwr yn ddiweddar yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, yn amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, dyletswydd yr Awdurdod i gyflawni datblygiadau cynaliadwy, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl.

NODWYD



6. Adroddiad Ceisiadau Cynllunio

Bu'r pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

[Gyda chytundeb y Cadeirydd cafodd y cais canlynol ei gyflwyno yng nghynt yn yr agenda i alluogi'r asiant i adael yn gynnar]

- (a) CYFEIRNOD: NP/18/0665/FUL
YMGEISYDD: Mr a Mrs Meixner
CYNNIG: Newid defnydd Dan y Garn o lety gwyliau i ddefnydd preswyl
LLEOLIAD: Treleddydd Fawr, Tyddewi

Adroddwyd bod y cynnig cyfredol yn gofyn am newid defnydd o'r adeilad a oedd ar hyn o bryd yn caniatáu defnydd fel llety gwyliau i lety preswyl cyflawn. Roedd yr adeilad yn cynnwys tair ystafell wely ac wedi'i godi o garreg draddodiadol; doedd hi ddim yn fwriad i wneud newidiadau allanol. Roedd yna addewid drafft unochrog o gyfrannu swm tuag at dai fforddiadwy wedi'i gyflwyno gyda'r cais ond doedd hwn ddim wedi'i lofnodi na'i gwblhau.

Roedd y mater gerbron y Pwyllgor am fod Cyngor Dinas Tyddewi wedi cefnogi'r cais am na fyddai newid defnydd o'r fath yn cael unrhyw effaith gweledol ond, fodd bynnag, roedd hyn yn groes i argymhelliad y swyddogion.

Esboniodd y swyddog pan oedd y cais gwreiddiol wedi'i ganiatáu yn 1989 roedd yr amod yn cyfyngu'r defnydd i uned gwyliau wedi'i osod er mwyn atal defnydd o'r newydd yng nghefn gwlad agored, ac roedd yn dal yn ei le ac yn orfodol. Roedd cais yn gynharach yn 2018 (NP/18/0486/S73) i waredu'r amod hwnnw wedi'i dynnu nôl am fod y swyddogion wedi cynnig ei gyfnewid am amod mwy modern a fyddai'n caniatáu defnydd gwyliau ar hyd y flwyddyn ond roedd yr ymgeiswyr o'r farn y byddai hynny yn fwy o gyfyngiad. Roedd yr amod hwn yn caniatáu mwy o fudd economaidd i'r ardal o ran cefnogi'r economi dwristiaeth leol mewn modd na fyddai preswyllo llawn amser yn gwneud ac roedd hyn yn cael ei adleisio ym mharagraff 3.56 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) (fersiwn 10).

Nododd yr adroddiad bod yr eiddo wedi'i leoli y tu fas i bob un o'r Canolfannau oedd wedi'u diffinio yn y Cynllun Datblygu Lleol oedd wedi'i fabwysiadu ac o'r herwydd roedd yn cael ei ystyried fod y lleoliad yng nghanol cefn gwlad. Mewn amgylchiadau o'r fath roedd y Cynllun yn caniatáu addasu adeiladau priodol ar gyfer amrediad o ddefnydd ond yn



rhoi'r flaenoriaeth i ddefnydd yn ymwneud â chyflogaeth, a oedd yn cynnwys llety gwyliau fel modd o gefnogi'r economi dwristiaeth leol. O gymryd i ystyriaeth hygyrchedd Canolfannau nid oedd yr eiddo yn bodloni'r maen prawf angenrheidiol i gefnogi defnydd preswyl llawn amser. Ac o dderbyn nad oedd yna ystyriaeth berthnasol o bwys a oedd yn gorbwyso canllaw'r polisi cyfredol oedd wedi'i fabwysiadu yn y cyswllt hwn, ni ellid cefnogi'r cais a'r argymhelliad oedd gwrthod.

Anerchwyd y Pwyllgor gan yr asiant, Mr Chris Kimpton, wedyn. Cyfeiriodd at y caniatâd cyfredol a oedd yn caniatáu preswyl heblaw am y cyfnod 10 Ionawr hyd 28 Chwefror ac felly gellid byw ynddo am ddeng mis a hanner y flwyddyn. Ystyriodd hyn fel ystyriaeth berthnasol a holodd beth oedd y gwahaniaeth rhwng y cyfnod hwnnw o breswyl a'r hyn a oedd gerbron y Pwyllgor nawr. Esboniodd bod y cais blaenorol wedi'i dynnu nôl am y byddai'r math o amod a gynigiwyd yn fwy cyfyngol na'r un mewn grym ar hyn o bryd.

Wrth droi at y rhesymau a gynigid dros wrthod dywedodd Mr Kimpton nad oedd naill ai paragraff 5.5.3 o BCC na Pholisi 7 y Cynllun Datblygu Lleol yn atal datblygu preswyl a nododd bod nifer o safleoedd gwersylla a charafanau yn ogystal â bythynnod gwyliau yn yr ardal, ac na fyddai colli Dan y Garn yn bygwth twristiaeth yn yr ardal. Nododd hefyd bod y cyfeirnod, yn rheswm 3, at baragraff 4.2.24 o BCC, yn cyfeirio at adeiladu o'r newydd ac nad oedd felly yn berthnasol. Nododd Mr Kimpton y caniatâd a roddwyd yn ddiweddar yn Heol Lawreni, Creseli yn groes i Bolisi 52 (teithio cynaliadwy) a dadleuodd nad oedd Dan y Garn yn addas ar gyfer tai fforddiadwy, ond, fodd bynnag, roedd ei gleientiaid yn barod i dderbyn amodau'n ymwneud â darparu pwynt gwefru cerbyd ac adfer safle fel y gwnaed yn angenrheidiol yn yr achos yng Nghreseli. Yn olaf, o gyfeirio at rheswm 5 a gynigiwyd (methu darparu cyfraniad tuag at ddarpariaeth tai fforddiadwy) doedd e ddim yn deall pam nad oedd y cytundeb drafft unochrog a gyflwynwyd yn cario rhywfaint o bwys gan nodi y byddai'n arwain at gyfraniad o tua £13,900 tuag at ddarpariaeth tai fforddiadwy.

Nododd Mr Kimpton na fyddai'r cais yn cael fawr o wir effaith ar drafnidiaeth ac nad oedd yna wrthwynebiad o du'r Awdurdod Prifffyrdd, ac y gallai ddod yn fwy hygyrch trwy ddulliau eraill o drafnidiaeth gynaliadwy yn y dyfodol o ganlyniad i newidiadau mewn dylunio cerbydau. Terfynodd trwy ddweud na fyddai'r newid yn effeithio ar brydferthwch naturiol y Parc Cenedlaethol a gofynnodd i'r Aelodau i ymestyn y defnydd o'r eiddo hwn o ddeg mis a hanner y flwyddyn i ddeuddeg mis y flwyddyn.

O dderbyn datganiad Mr Kimpton ynghylch cyflwyno'r cytundeb unochrog gofynnodd un o'r Aelodau i'r swyddogion esbonio pam fod rheswm 5 wedi'i gynnwys. Nododd y swyddogion am fod y cytundeb dim ond wedi'i



gyflwyno fel drafft, a phe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo'r diwrnod hwnnw, ni fyddai'n ddilys. Yn ychwanegol pe bai yna wrthodiad nad oedd yn cynnwys rheswm 5 yn destun apêl gan ychwanegu'r rheswm ar ddyddiad diweddarach, gallai hynny arwain at ddyfarnu costau yn erbyn yr Awdurdod. Gofynnodd Aelod arall a oedd yr amod cyfredol yn cyfyngu defnydd o'r eiddo i ddeg mis a hanner y flwyddyn yn fater y gellid ei orfodi ac atebodd y swyddogion pe bai tystiolaeth yn dod i'r fei nad oedd yr eiddo yn cael ei ddefnyddio fel llety gwyliau gellid gweini rhybudd o dor-amod. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc bod newidiadau defnydd i unedau gwyliau yn cefnogi'r economi lleol, ac roedd yr amod a oedd wedi'i ddiweddarau mewn cynnig blaenorol yn caniatáu ar gyfer twristiaeth trwy'r flwyddyn yn ogystal â gwneud y defnydd a fwriadwyd fel llety gwyliau yn llawer mwy eglur

PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:

- 1. Mae'r cynnig i newid defnydd o'r eiddo i ddefnydd preswyl cyflawn o fod yn llety gwyliau yn groes i Bolisi 7 Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Penfro (mabwysiadwyd Medi 20120) sy'n ceisio sicrhau bod addasiadau o adeiladau sydd mewn bodolaeth eisoes yn dderbyniol oddi fewn i gefn gwlad ac yn cynnwys blaenoriaethu addasiadau i ddefnydd cyflogaeth (llety gwyliau).**
- 2. Mae'r cynnig i newid defnydd o'r eiddo i ddefnydd preswyl cyflawn o fod yn llety gwyliau yn groes i BCC 10 tud 85 para 5.5.3 sy'n nodi bod datblygiadau yn ymwneud â thwristiaeth mewn ardaloedd gwledig yn elfen angenrheidiol i ddarparu economi iach ac amrywiol.**
- 3. Mae'r cynnig i newid defnydd o'r eiddo i ddefnydd preswyl cyflawn o fod yn llety gwyliau yn groes i BCC 10 tud 59 para 4.2.24 sy'n dweud mewn cefn gwlad agored oddi wrth anheddau sefydledig nid yw'r ffaith fod un tŷ ar safle penodol heb fod yn ymwithiol ynddo'i hun ddim yn ddadl dda o blaid rhoi caniatâd; gallai rhoi caniatâd o'r fath yn rhy aml fod ar y cyfan yn andwyol i gymeriad yr ardal. Byddai newid o'r fath yn creu cynsail anffodus ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.**
- 4. Mae'r cynnig i newid defnydd o'r eiddo i ddefnydd preswyl cyflawn o fod yn llety gwyliau yn groes i Bolisi 7 a Pholisi 52 o Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (mabwysiadwyd Medi 2010) sy'n ceisio sicrhau bod datblygiad preswyl cyflawn yng nghefn gwlad yn hygyrch trwy ddull cynaliadwy o deithio.**
- 5. Mae'r cynnig i newid defnydd o'r eiddo i ddefnydd preswyl cyflawn o fod yn llety gwyliau yn groes i Bolisi 45 (d) o Gynllun Datblygu Lleol**



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r SPG a fabwysiadwyd am nad yw'n darparu cyfraniad tuag at ddarpariaeth tai fforddiadwy.

- (b) CYFEIRNOD: NP/18/0541/S73
YMGEISYDD: Mr P Morgan, Morgan Construction
CYNNIG: Amrywiad o amod rhif 2 o NP/15/0194/FUL i ddiwygio dyluniad Lleiniau rhif 10, 11 a 17 o fyngalos un ystafell wely i anheddau dwy ystafell wely un llawr a hanner.
LLEOLIAD: Tir oddi ar Feidr Eglwys, Trefdraeth

Nodwyd bod y cais hwn wedi'i dynnu nôl.

NOTED.

- (c) CYFEIRNOD: NP/18/0542/S73
YMGEISYDD: Mr P Morgan, Morgan Construction
CYNNIG: Amrywiad o amod rhif 2 o NP/15/0194/FUL i ddiwygio gosod allan yr unedau tai fforddiadwy rhifau 3 i 9 yn gynwysedig
LLEOLIAD: Tir oddi ar Feidr Eglwys, Trefdraeth

Atgoffwyd yr Aelodau bod caniatâd cynllunio wedi'i ganiatáu yn 2016 ar gyfer datblygiad preswyl yn cynnwys 35 o anheddau ar dir gyferbyn i Feidr Eglwys, Trefdraeth. O'r 35 o anheddau a gynigiwyd roedd 14 yn unedau fforddiadwy y gellid eu cyrraedd o Feidr Eglwys, byddai dwy annedd bellach ar gyfer y farchnad y gellid eu cyrraedd oddi ar Feidr Eglwys a byddai gweddill yr anheddau wedi'u gosod mewn dwy 'heol hosan' y gellid eu cyrraedd o Feidr Bentick. Byddid yn cadw at y ffiniau caeau fel y maen nhw ar hyn o bryd a'r datblygiad tai wedi'i osod allan rhyngddyn nhw.

Roedd y cais presennol yn gofyn am ganiatâd i amrywio gosod allan y tai fforddiadwy ar y safle, ac eglurodd y swyddog y gwnaed cais i wneud lleiniau 6, 7 a 9 yn deras canolog gyda fflatiau i'r dwyrain yn hytrach na'r disgrifiad oedd wedi'i osod allan o dan 'Cynnig Cyfredol' yn yr adroddiad. Byddai hyn yn caniatáu i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig reoli'r safle yn well.

Roedd y swyddogion o'r farn fod y diwygiad a gynigid ar gyfer gosod allan lleiniau 3 i 9 yn dderbyniol, am na fyddai'r diwygiad arfaethedig yn arwain at ddatblygiad sylfaenol gwahanol i'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol. Eglurwyd y byddai'r cais yn dal yn atebol i'r cytundeb cyfreithiol gwreiddiol. Yr argymhelliad felly oedd cymeradwyo yn amodol ar yr amodau oedd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad.



Nododd rhai Aelodau eu bod wedi derbyn gohebiaeth ynghylch y llwybr troed ar y safle, a rhoddodd y swyddogion sicrwydd y byddid yn cadw golwg ar hyn i wneud yn siŵr y byddai'n cael ei gwblhau yn unol â'r hyn oedd wedi'i gymeradwyo'n wreiddiol. Cadarnhaon nhw hefyd iddyn nhw dderbyn e-byst yn mynegi pryderon ynghylch cerbydau mawr, mwd ar y ffyrdd a gwaredu coed, a nodwyd bod cynllun rheoli ar gyfer y safle wedi'i gymeradwyo, ac y byddid yn parhau i gadw llygad ar y sefyllfa i sicrhau cydymffurfriad.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau'n ymwneud ag amseriad, yn unol â chynlluniau, bob yn dipyn, lefelau safle, samplau o ddefnyddiau, datganiad dull adeiladu, diogelu coed, tirweddu, archeoleg, parcio a throi, ffyrdd mynediad, draenio dŵr wyneb, cyflenwad dŵr, goleuo allanol, rhywogaethau wedi'u diogelu, llygredd, gosod ceblau dan ddaear a datblygiad a ganiatawyd.

- (d) CYFEIRNOD: NP/18/0545/FUL
YMGEISYDD: Mr J Powell
CYNNIG: Datblygiad Un Blaned i gynnwys caban (carafán), tŷ gwydr ar oledd, adeilad mas, sgubor, twnnel poly, storfa goed a stondin.
LLEOLIAD: Tir gyferbyn i Fachongle Isaf, Cilgwyn, Trefdraeth

Adroddwyd bod caniatâd cynllunio yn cael ei chwennych ar gyfer tŷ sengl Datblygiad Un Blaned (DUB) yn cynnwys annedd ar wahân, sgubor, tai mas ar gyfer gwasanaethau a thoiled compost, twnnel poly, storfa goed a stondin clwyd ffarm i werthu cynnyrch.

Roedd disgwyl i ymgeiswyr DUB i fedru cyflenwi 65% o'u hanghenion bwyd oddi ar eu tir, naill ai trwy gynhyrchu'r 65% cyfan o'r tir neu trwy gynhyrchu dim llai na 30% o'u tir a'r 35% gweddill trwy ddefnyddio incwm o werthiant neu gyfnewid cynnyrch wedi'i dyfu neu ei fagu ar eu safle. Yn yr achos hwn, adroddwyd bod yr ymgeiswyr eisoes yn creu cynnyrch ar y safle a'u bod yn tyfu 61% o'u bwyd mewn lleiniau llysiau penodol, perllan a gardd goed, gyda'r 4% gweddill trwy incwm o werthiant neu gyfnewid cynnyrch wedi'i dyfu neu ei fagu ar eu safle. Byddai'r incwm o'r tir yn seiliedig ar dyfu blodau, torri blodau, lluosogi planhigion a gwerthiant, cnydau ffrwythau meddal a llysiau a chadw gwenyn/mêl.

Roedd y swyddogion wedi rhoi ystyriaeth drylwyr i'r DUB arfaethedig yng nghyd-destun fframwaith polisi lleol a chenedlaethol perthnasol, ynghyd â'r Cynllun Rheoli arfaethedig yn delio'n ddigonol â gofynion DUB mewn cefn gwlad agored, ac roedd y cais yn cael ei argymhell ar gyfer ei gymeradwyo.



Roedd Mr John Powell, yr ymgeisydd, yn bresennol yn y Pwyllgor, ac roedd yn barod i ateb unrhyw gwestiynau. Roedd yr Aelodau wedi'u plesio gan yr ymdrech oedd eisoes wedi'i wneud ar y safle a olygai fod yr ymgeiswyr eisoes wedi cyflenwi eu hanghenion bwyd sylfaenol oddi ar y safle. Fodd bynnag, amheuai'r Aelodau a oedden nhw'n hyderus o fedru cynyddu hyn i greu'r incwm oedd ei angen i gyflawni'r cynllun rheoli. Atebodd Mr Powell trwy ddweud eu bod wedi dangos y medren nhw gyflenwi'r lleiafswm angenrheidiol a thrwy ddod i adnabod y tir, roedd o'r farn y gellid rhagori ar y cynnyrch presennol yn y dyfodol trwy effeithlonrwydd a gwell rheolaeth. Ychwanegodd er mai mewn Gwyddorau'r Ddaear roedd ei gefndir roedd wedi bod yn gweithio fel garddwr a thirweddwr yng ngogledd Sir Benfro yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac roedd hyn wedi cynyddu ei wybodaeth o amaethu yn yr ardal.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at sylwadau Dr R Plummer ynghylch y cais hwn oedd wedi'u dosbarthu i'r Aelodau am na fedrai hi fod yn bresennol, ac roedd hwn yn cyfeirio at fonitro'r Cynllun Rheoli. Gofynnodd Aelodau eraill p'un a fyddai'n bosib, yn y dyfodol, i ddosbarthu copi o'r Cynllun Rheoli iddyn nhw am ei fod yn rhan hanfodol o'r ceisiadau hyn. Ychwanegodd un Aelod iddo ofyn am gopi o'r Cynllun Rheoli a'i fod wedi derbyn ymateb boddhaol i'w gwestiynau yn ei gylch gan y swyddog. Fodd bynnag, awgrymodd y dylid cynnwys amodau i reoli gweithgarwch adwerthu ar y safle a'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer cynhyrchu micro. Cytunodd yr Aelodau y dylid ychwanegu'r amodau hyn.

Gwnaed sylw hefyd gan rai Aelodau ynghylch yr hyn roedden nhw'n ei ystyried oedd dyluniad gwantan yr annedd arfaethedig a gresynwyd ei fod yn brin o gyfeiriad i'r wlad oddi amgylch.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau'n ymwneud ag amseriad, yn unol â'r Cynllun Rheoli, cyflwyno adroddiadau monitro blynyddol, datganiad dull adeiladu, goleuo allanol, hawliau datblygu a ganiateir a gweithgareddau manwerthu.

- (e) CYFEIRNOD: NP/18/0559/FUL
YMGEISYDD: Mr D Brown ac ateb
CYNNIG: 14 unedau tai fforddiadwy, 2 dŷ marchnad agored ac uwchraddio 85 o bebyll a charafannau teithio i 85 o garafanau sefydlog ynghyd â thirweddu a ffyrdd cysylltiedig. Gorsaf bwmpio newydd
LLEOLIAD: Parc Carafanau Buttyland, Heol yr Orsaf, Maenorbŷr

Cafodd y cais hwn ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor am ei fod yn ddatblygiad o bwys.



Adroddwyd bod safle'r cais yn faes carafanau oedd wedi'i hen sefydlu a oedd wedi'i leoli ar ddwy ochr ffin y Ganolfan Wledig, fel roedd wedi'i ddiffinio gan Bolisi 6 o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), gyda'r rhan ddwyreiniol y safle (safle gwersylla a charafannau) yng nghanol cefn gwlad agored. Roedd y safle wedi bod yn destun trafodaethau cyn-gyflwyno helaeth am fod swyddogion o'r farn fod yna botensial i ryddhau safle tai oedd wedi'i glustnodi, darparu manteision amgylcheddol tymor hir trwy ddatblygu tirweddu strategol a gwella carthffosiaeth i'r anheddiad. Er bod y potensial hwn yn parhau roedd y swyddogion wedi dod i'r casgliad na fyddai hynny'n cael ei wireddu trwy'r cais presennol ac o'r herwydd roedden nhw'n argymhell gwrthod y cais.

Roedd yr adroddiad yn gosod allan holl hanes hirfaith y safle a oedd wedi derbyn caniatâd ar gyfer 35 o unedau teithio yn wreiddiol yn 1994 ac yna caniatâd ar gyfer 35 o garafanau teithio neu bebyll ychwanegol (rhwng 1 Mawrth a 28 Medi) trwy Dystysgrif Cyfreithlondeb yn 2013. Roedd y swyddogion o'r farn nad oedd gosod 70 o unedau teithio tymhorol a 15 llain ar gyfer pebyll ynghyd ag 85 o garafannau sefydlog gydol y flwyddyn yn darparu budd amgylcheddol trwy ostwng y nifer ac y byddai mewn gwirionedd yn arwain at ddwysau'r defnydd o'r safle, yn groes i amcanion y CDLI. Tra roedd tirweddu wedi'i gynnig ystyriwyd bod hyn hefyd yn annigonol i leddfu'r datblygiad a fyddai'n cael effaith weledol andwyol sylweddol ar y Parc Cenedlaethol.

Aeth yr adroddiad yn ei flaen i amlinellu tra bo elfen dai y cais yn dderbyniol, roedd yna hefyd bryderon ynghylch y darn sylweddol o glawdd fyddai'n cael ei golli i ganiatáu datblygu'r orsaf bwmpio, a fyddai'n cael effaith weledol wrbaneiddio andwyol ar gymeriad gwledig yr ardal. Nododd y swyddogion bod Cytundeb S106b drafft ar gyfer y tai wedi'i gyflwyno ond, fodd bynnag, oherwydd mai gwrthod y cais oedd yr argymhelliad ni aed â'r mater hwn ymhellach oherwydd y gost i'r ymgeisydd ac yng ngoleuni'r argymhelliad i wrthod am resymau eraill. Fodd bynnag, gwnaed cais y dylai absenoldeb Cytundeb S106 ffurfio rheswm ychwanegol dros wrthod.

Anerchwyd y Pwyllgor gan Mr Gerald Blain, yr Asiant, wedyn. Esboniodd fod y trafodaethau gyda'r Awdurdod ac *ateb* wedi bod ar y gweill ers pum mlynedd. Tra bo newid carafanau teithio i garafanau sefydlog y tu hwnt i bolisi, cytunwyd y byddai rhoi'r tir a neilltuwyd fel rhodd i *ateb* i ddarparu tai fforddiadwy yn ystyriaeth berthnasol, ac fe gyfeiriodd at lythyr gan gyn-Bennaeth Rheoli Datblygu'r Awdurdod, Liam Jones yn hyn o beth. Cynhaliwyd trafodaethau cyn-gyflwyno helaeth i geisio cyflawni hyn, gyda'r potensial i ryddhau tai a gwella'r trefniant carthffosiaeth ar gyfer yr anheddiad trwy ddarparu gorsaf bwmpio. Cynigiwyd tirweddu sylweddol yn ogystal â chyflwyno Cytundeb S106b drafft. Cyfeiriodd yr asiant hefyd at astudiaeth ddiweddar gan GVA Grimley, gan ddyfynnu fod gwariant



fesul carafán sefydlog yn £15,300 fesul blwyddyn o gymharu â £2,800 fesul blwyddyn ar gyfer llain deithio; nododd fod y cynnydd potensial mewn gwariant yn lleol yn fwy na £1 miliwn. Gofynnodd Mr Blain felly i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cais, ar yr amod bod swyddogion yn cytuno ar faterion yn ymwneud â'r cytundeb S106 a thirweddu, er mwyn dod â chwe blynedd o drafodaethau i ben.

Roedd yr Aelodau am eglurhad gan yr Asiant ynghylch y gwelliannau amgylcheddol roedd ei gleient yn barod i'w cynnig. Atebodd Mr Blain bod tirweddu ar hyd y ffin rhag bod y safle i'w weld o Ridgeway wedi'i drafod ac roedd yn ffyddiog y gellid dod i gytundeb gyda'r swyddogion ynglŷn â hyn gan gadarnhau bod ei gleient yn barod i 'ildio ychydig bach mwy'. Roedd y swyddogion, fodd bynnag, o'r farn fod angen llawer mwy o waith sylweddol ond gan gadarnhau y bydden nhw'n barod i gyfarfod â'r cleient i drafod yr opsiynau a'r tirweddu oedd ei angen.

Tra eu bod yn siomedig nad oedd yn bosib gwireddu'r cynllun roedd yr Aelodau yn canmol y swyddogion am y gwaith a wnaed hyd yma. Roedden nhw o'r farn nad oedd hi'n amhosib datrys y mater tirweddu a bod yna dipyn o dir cyffredin ac anogwyd pawb i ddyfalbarhau gyda'r ddeialog fel y byddai gwireddu'r cynllun yn cael ei gyflawni yn y dyfodol.

PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:

- 1. Byddai'r cynnig i gynyddu'r defnydd o'r rhifau lleiniau ar y safle trwy ganiatáu 85 o garafannau sefydlog gydol y flwyddyn ar safle wedi'i leoli mewn lleoliad cefn gwlad yn arwain at effaith andwyol ar dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol yn groes i bolisiau 8, 15, 35, 38 a 39 o'r Cynllun Datblygu Lleol.**
- 2. Mae polisiau 1, 8 a 15 o Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ceisio diogelu a hyrwyddo patrwm ac amrywiaeth y dirwedd, ac atal datblygiad nad yw'n llwyddo i gydweddu â neu'n hyrwyddo tirlfurf a chymeriad tirwedd y Parc Cenedlaethol, sydd wedi'i osod yn ansensitif a heb gydymdeimlad oddi fewn i'r dirwedd ac yn weledol ymwthiol. Mae'r datblygiad arfaethedig yn ffurfio ychwanegiad anghydnaws a gweledol ymwthiol yn yr ardal wledig hon sydd yn niweidiol i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol ac felly yn groes i bolisiau 1, 8 a 15 o Bolisi Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd a'r Cyfarwyddyd Cynllunio Ychwanegol ar Asesiad Cymeriad Tirwedd.**
- 3. Nid yw'r cais wedi llwyddo i ddarparu ar gyfer tai fforddiadwy yn fytholbarhaus trwy ddarparu cytundeb adran 106 addas. Mae'r cais felly yn aflwyddiannus o dan Bolisi 45 (Tai Fforddiadwy) a'r Cyfarwyddyd Cynllunio Ychwanegol ar gyfer Tai Fforddiadwy**



(mabwysiadwyd 5 Tachwedd 2014) ac o'r herwydd yn groes i'r cyfarwyddyd geir oddi fewn i Bolisi Cynllunio Cymru (Cyhoeddiad 10, 2018).

[Cafodd y cyfarfod ei ohirio am 10 munud o doriad cysur]

- (f) CYFEIRNOD: NP/18/0606/FUL
YMGEISYDD: Misses S a V Chamberlain
CYNNIG: Dymchwel byngalo Woolaway a gosod annedd yn ei le.
LLEOLIAD: 26 Pentref Angle, Angle, Penfro

Adroddwyd bod yr eiddo hwn, wedi'i leoli oddi fewn ffiniau Canol Pentref Angle yn fyngalo ar wahân cyffredin o wneuthuriad 'pre-fab'. Mae tu blaen y safle yn agored o gymharu â gweddill yr olygfa stryd ond wedi'i gosod nôl o'r brif ffordd y tu ôl i ardd tu blaen. Mae'r byngalo oddi fewn i'r Ardal Gadwraeth ac fe fyddai cais a gyflwynwyd ar y cyd yn gofyn am Ganiatâd Ardal Gadwraeth yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor (Cofnod 6(g) cyfeir) maes o law.

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor am fod safbwynt Cyngor Cymuned Angle yn groes i eiddo'r swyddog cynllunio.

Gofynnwyd am ganiatâd cynllunio i ddymchwel yr eiddo pre-fab a chodi byngalo dormer ar yr un safle. Byddai gan yr annedd newydd furiau render wedi'u peintio'n llyfn ynghyd â tho teils llwyd a byddai ei fanylion yn draddodiadol a chymesur.

Roedd Cyngor Cymuned Angle yn pryderu nad oedd gan yr un adeilad un llawr yn wynebu'r brif ffordd ffenestri to neu felwcs a bod y ffenestr do yn gwneud i'r eiddo edrych yn anghymesur, yr oll yn groes i eiddo eraill yn y pentref ac yn anghydnaws. Tra bo'r swyddogion yn cytuno ei fod yn agored weledol yn yr olygfa stryd roedd dylunio yn bwysig, ac oherwydd ei leoliad oddi fewn i'r Ardal Gadwraeth fe ddylai'r manylion adlewyrchu a chadarnhau'r naws gwerinol sydd eisoes yno. Fodd bynnag, roedd y swyddogion o'r farn bod yna amrywiaeth digonol ymhlith anheddau o ran golwg oddi fewn i Angle ac na fyddai'r annedd newydd yn cael ei gweld yn sylweddol wahanol oddi fewn i'r olygfa stryd.

Roedd swyddogion wedi dod i'r casgliad bod y cynnig yn gosod adeilad yn lle'r eiddo presennol nad oedd iddo werth hanesyddol na gweledol penodol ac nad oedd yn cydweddu â safonau modern. Roedd y lleoliad yn dal yr un a thra yn fwy modern o ran adeiladu roedd y dyluniad wedi rhoi ystyriaeth i'r naws gwerinol traddodiadol oddi amgylch. Roedd y cynnig felly yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol a'r argymhelliad oedd cymeradwyo yn amodol ar osod amodau fel roedden nhw wedi'u gosod allan yn yr adroddiad.



PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar osod amodau'n ymwneud ag amseriad, yn unol â chynlluniau, draenio dŵr wyneb a'r ffenestri ar y trychiad blaen i fod o bren wedi'i baentio.

- (g) CYFEIRNOD: NP/18/0607/CAC
YMGEISYDD: Misses S a V Chamberlain
CYNNIG: Dymchwel byngalo Woolaway a gosod annedd yn ei le
LLEOLIAD: 26 Pentref Angle, Angle, Penfro

Adroddwyd bod yr eiddo hwn, wedi'i leoli oddi fewn ffiniau Canol Pentref Angle yn fyngalo ar wahân cyffredin o wneuthuriad 'pre-fab'. Mae tu blaen y safle yn agored o gymharu â gweddill yr olygfa stryd ond wedi'i gosod nôl o'r brif ffordd y tu ôl i ardd tu blaen. Roedd y byngalo oddi fewn i'r Ardal Gadwraeth ac roedd angen Caniatâd Ardal Gadwraeth felly i'w ddymchwel.

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor am fod safbwynt Cyngor Cymuned Angle yn groes i eiddo'r swyddog cynllunio. Roedden nhw'n pryderu bod dyluniad yr annedd fyddai'n cael ei chodi yn anghydnaws ag eiddo arall yn y pentref. Tra roedd y swyddogion yn cytuno ei fod yn agored weledol oddi fewn i'r olygfa stryd roedden nhw o'r farn bod dyluniad yn bwysig, ac oherwydd ei leoliad oddi fewn i'r Ardal Gadwraeth fe ddylai'r manylion adlewyrchu a chadarnhau'r ymdeimlad gwerinol sydd eisoes yno. Fodd bynnag, roedd y swyddogion o'r farn oddi fewn i Angle roedd amrywiaeth digonol o ran golwg rhwng yr anheddau ac na fyddai'r annedd newydd yn tynnu sylw at ei hun am ei bod yn sylfaenol wahanol oddi fewn i'r olygfa stryd.

Roedd yn swyddogion o'r farn nad oedd unrhyw werth cadwraeth i'r byngalo pre-fab ac roedd dymchwel yr adeiledd felly yn dderbyniol. Roedd cais cynllunio i godi adeilad arall yn lle'r un presennol wedi'i gymeradwyo o dan NP/18/0606/FUL (Cofnodion 6 (f) cyfeir) a ddylai sicrhau na fyddai'r safle yn wag yn y dyfodol. Roedd y cynnig yn cydymffurfio â'r anghenion cyfreithiol statudol perthnasol ac roedd y swyddogion yn medru ei gefnogi.

PENDERFYNIAD: Y cais am Ganiatâd Ardal Gadwraeth i'w gymeradwyo yn amodol ar osod amodau'n ymwneud ag amseriad, yn unol â chynlluniau a dymchweliad i beidio â digwydd fwy na thri mis cyn i'r gwaith ailadeiladu ddechrau.



- (h) CYFEIRNOD: NP/18/0610/FUL
YMGEISYDD: Mr H Thomas, Landway Developments Ltd
CYNNIG: Datblygiad Preswyl o 38 o dai (27 i'r farchnad agored a 11 yn fforddiadwy)
LLEOLIAD: Tir gyferbyn â Bush Terrace, Jameston, Dinbych-y-pysgod

Adroddwyd bod y tir hwn yn safle wedi'i neilltuo oddi fewn i'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer 35 o anheddau. Roedd y cais yn un o bwys ac o ddiddordeb i'r cyhoedd. O'r herwydd gofynnwyd i'r Aelodau ystyried ymweliad safle i weld y safle ac oddi amgylch cyn ystyried y cais cynllunio mewn cyfarfod o'r Pwyllgor maes o law.

Awgrymodd un Aelod, o ystyried y ffaith ei fod yn ddatblygiad o bwys yn Jameston, gyda chryn ddiddordeb lleol, y dylid ystyried cynnal y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor yn Neuadd Bentref Jameston. Cytunai'r Aelodau eraill ei bod yn bwysig cynnal cyfarfodydd mewn gwahanol rannau o'r Parc Cenedlaethol ond dywedodd y swyddogion ei bod yn debygol y bydd nifer o geisiadau eraill o bwys yn cael eu hystyried yn y cyfarfod nesaf ac y byddai cynnal y cyfarfod ym Mharc Llanion yn decach i bawb oedd ynghlwm â'r mater. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd a'r swyddogion yn ystyried y mater ymhellach cyn penderfynu.

PENDERFYNIAD: Trefnu ymweliad safle cyn penderfynu'r cais.

- (i) CYFEIRNOD: NP/18/0720/FUL
YMGEISYDD: Mr A Muskett – PCNPA
CYNNIG: Gosod pympiau carthffosiaeth dŵr brwnt a chysylltu â'r brif garthffos briffordd a fabwysiadwyd
LLEOLIAD: Castell Caeriw, Feidr Castell, Caeriw, Dinbych-y-pysgod

Cafodd y cais ei roi gerbron y Pwyllgor am fod y datblygiad o dan sylw yn ymwneud â safle Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Roedd y swyddogion o'r farn fod y cais yn dderbyniol o'i asesu yng ngoleuni polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol, fel seilwaith angenrheidiol i gefnogi'r defnydd cyfredol o'r safle. Adroddwyd yn y cyfarfod, ers ysgrifennu'r adroddiad, bod ymatebion ymgynghorol wedi dod i law wrth y Swyddog Cadwraeth Adeiladau, Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed (YAD) ac Ecolegydd yr Awdurdod, a doedd yr un ohonyn nhw wedi gwrthwynebu'r cais. Roedd YAD wedi argymhell bod eu hamod sylfaenol ynghylch cynllun ymchwilio wedi'i roi ar bapur yn berthnasol. Roedd y cais felly yn cael ei argymhell ar gyfer ei gymeradwyo gydag amodau.



Nododd y Cadeirydd fod Dr R Plummer, am nad oedd wedi medru mynychu'r cyfarfod, wedi nodi mewn e-bost ynghylch absenoldeb ymatebion wrth Cadw ac YAD, fodd bynnag roedd y pryder hwn wedi'i ddatrys nawr. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod arall cadarnhawyd na fyddai unrhyw waith yn cael ei wneud uwchben y ddaear, ac y byddai'r offer pwmpio yn cael eu lleoli yn un o'r tanciau storio sydd yno ar hyn o bryd. Byddai llwybr y brif biben o'r ardd furiog i'r briffordd yn yr un ffos ac o dan y cebl trydan presennol a fyddai'n lliniaru'r effaith ar ardal Restredig y safle. Byddai Cytundeb Mabwysiadu 104 yn cael ei wneud gyda Dŵr Cymru o ran y cysylltiad â'r brif garthffos a byddid yn defnyddio contractwyr sydd wedi cael sêl bendith Cyngor Sir Penfro i wneud rhan o'r gwaith ar y ffordd gyhoeddus.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar gadw at amodau'n ymwneud ag amseriad, yn unol â chynlluniau ac archeoleg.

7. Apeliadau

Adroddodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu am bump o apeliadau (yn erbyn penderfyniadau cynllunio'r Awdurdod) a oedd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru, a rhoddodd fanylion am y diweddaraf o ran y broses apêl ymhob achos.

Adroddwyd hefyd bod 'llythyr protocol' wedi'i dderbyn wrth gyfreithwyr yn gweithredu ar ran NoPi St David's Cyf (yn cael ei ffurfio), cwmni wedi'i ffurfio gan y grŵp sy'n ymgychu yn erbyn y datblygiad yn Heol Glasfryn, Tyddewi sy'n cynnwys gwesty y cynigiwyd y bydd yn cael ei gadw gan Premier Inn. Cynghorodd y Cyfreithiwr bod y llythyr, sy'n gosod allan y rhesymau pam yr ystyrid y penderfyniad yn wallus, yn cael ei ystyried gan y tîm cyfreithiol. Roedd ymateb yn cael ei baratoi ac roedd y rheolau protocol cyn gweithredu yn nodi bod rhaid i'r Awdurdod anfon ymateb erbyn 28 Ionawr. Pe bai'r hawlwyf arfaethedig yn penderfynu ceisio am Adolygiad Barnwrol ar ôl ystyried ymateb yr Awdurdod byddai'n ofynnol i'r llys benderfynu yn gyntaf os oedd yna achos i'w ddadlau ac y dylid caniatáu Adolygiad Barnwrol i fwrw ymlaen. Pe bai'r gweithrediadau yn mynd yn eu blaen yna mae'n debyg y bydd yn rai misoedd cyn y caiff yr achos ei glywed yng Nghaerdydd yn ôl pob tebyg.

NODWYD.

[Am iddo ddatgan diddordeb yn y mater canlynol gadawodd y Cyngorydd P Baker y cyfarfod gan gynnig ei ymddiheuriadau.]



8. Materion Cynllunio Eraill

a) Gorchymyn Cadwraeth Coed 138 Aber Hescwm

Adroddwyd bod cais wedi'i wneud i ystyried gosod Gorchymyn Cadwraeth Coed (GCC) GCC 136 ar goed yn Aber Hescwm ac fe wnaed hyn ar 31ain Ionawr 2018. Ar ôl hynny penderfynwyd peidio â chadarnhau'r gorchymyn am fod y cyfnod adolygu wedi dangos diwygiadau ac ychwanegiadau i'r cynllun a'r atodlen a oedd y tu hwnt i orchwyl yr hyn a ystyrid yn dderbyniol o dan gyfarwyddyd addasu GCC. Cafodd y GCC cyfredol GCC 138 ei weithredu ar 31ain Gorffennaf 2018 ac roedd yn cynnwys y diwygiadau hyn. Daeth un llythyr i law yn awgrymu newidiadau ac roedd yr adroddiad yn cynnig sylwadau ar y materion a godwyd.

Er bod estheteg weledol coeden neu goed yn fater goddrychol roedd y canllawiau gwrthrychol ar gyfer gweithredu Gorchymyn Cadwraeth Coed oll wedi'i bodloni'n ddigonol gan y grŵp o dan sylw gan gymryd i ystyriaeth meini prawf yn ymwneud â gweledd, effaith unigol a lletach. Ystyriai'r swyddogion y gallai'r coed a'r Allt gael eu diogelu am eu bod yn bodloni meini prawf ar gyfer eu cynnwys mewn GCC gan gadw'r coed hyn ar sail eu pwysigrwydd hanesyddol lleol. Argymhellwyd felly y dylid cadarnhau Gorchymyn Cadwraeth Coed 138 gyda newidiadau i waredu T14, adleoli T13 a chyfyngu ar ymlediad pen de dwyreiniol W3.

PENDERFYNWYD cadarnhau Gorchymyn Cadwraeth Coed 138 gyda newidiadau i waredu T14, adleoli T13 a chyfyngu ar ymlediad pen de dwyreiniol W3.

b) Gorchymyn Cadwraeth Coed 139 Barbeque Lawn, Saundersfoot

Adroddwyd, yn dilyn nifer o geisiadau gan y cyhoedd, ynghyd â derbyn cais cyn-gyflwyno ar gyfer y safle hwn, roedd Gorchymyn Cadwraeth Coed (GCC) 135 wedi'i weithredu ar 31ain Ionawr 2018. Fodd bynnag, penderfynwyd peidio â chadarnhau'r gorchymyn am fod dogfennau swyddogol perthnasol i'r Gorchymyn wedi'u rhoi o'r neilltu rhywle a doedd yr Awdurdod ddim yn medru ystyried y Gorchymyn yn gyflawn o ran gohebiaeth ymgynghori fel cyfanwaith. Er mwyn sicrhau bod y Gorchymyn yn cael ei ystyried yn gyflawn gan yr Awdurdod ni chafodd GCC 135 ei gadarnhau ac fe gafodd ei ddisodli trwy weithredu GCC 139 ar 31ain Gorffennaf 2018. Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon perthnasol i gynnig sylwadau drachefn ynghylch y GCC arfaethedig.

Nododd Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu na fyddai diogelu coed trwy GCC yn rhwystro datblygiad yn yr ardal ond byddai'n rhoi statws uwch i'r coed.

Ystyriai'r Swyddogion bod y coed yn gwneud cyfraniad sylweddol i gymeriad yr ardal ac yn darparu mwynder gweledol i'r pentref a'r harbwr.



Er bod estheteg weledol coeden neu goed yn fater goddrychol roedd y canllawiau gwrthrychol ar gyfer gweithredu Gorchymyn Cadwraeth Coed oll wedi'i bodloni'n ddigonol gan y grŵp o dan sylw gan gymryd i ystyriaeth meini prawf yn ymwneud â gwelededd, effaith unigol a lletach. Ystyriai'r Swyddogion y gellid diogelu'r coed am eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys mewn GCC gan danlinellu eu pwysigrwydd hanesyddol lleol yn ogystal â'u mwynder gweledol. Argymhellwyd felly y dylid cadarnhau Gorchymyn Cadwraeth Coed 139.

PENDERFYNWYD cadarnhau Gorchymyn Cadwraeth Coed 139.

c) Gorchymyn Cadwraeth Coed 140 The Coach House, Y Cwcell, Tyddewi

Adroddwyd bod rhybudd Ardal Gadwraeth wedi dod i law ar gyfer gwaredu Coeden Draenen Wen yr oedd y swyddogion o'r farn ei bod yn haeddu cael ei chadw am ei bod yn gwneud cyfraniad sylweddol i gymeriad yr ardal ac yn darparu mwynder gweledol. Roedd Gorchymyn Cadwraeth Coed (GCC) wedi'i osod ar y goeden yn seiliedig ar gyfarwyddyd Nodyn Cyfarwyddyd Technegol 10.

Daeth un llythyr o wrthwynebiad i law yn codi pryderon ynghylch golygfa a golau a'r perygl i iechyd a diogelwch y cyhoedd yn gyffredinol. Darparwyd sylwadau ar y gwrthwynebiadau hyn yn yr adroddiad.

Er bod estheteg weledol coeden neu goed yn fater goddrychol roedd y canllawiau gwrthrychol ar gyfer gweithredu Gorchymyn Cadwraeth Coed oll wedi'i bodloni'n ddigonol gan y grŵp o dan sylw gan gymryd i ystyriaeth meini prawf yn ymwneud â gwelededd, effaith unigol a lletach. Ystyriai'r Swyddogion y gellid diogelu'r goeden am ei bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ei chynnwys mewn GCC a byddid yn cadw'r goeden er mwyn ei mwynder gweledol. Argymhellwyd felly y dylid cadarnhau Gorchymyn Cadwraeth Coed 140.

PENDERFYNWYD cadarnhau Gorchymyn Cadwraeth Coed 140.

d) Gorchymyn Cadwraeth Coed 141 St Ishmaels Green

Adroddwyd, yn dilyn ymweliad safle, bod yr ardal yn union oddi amgylch y llecyn glas ym mhentref Llanisian yn Rhos wedi'i asesu ar gyfer deddfwriaeth GCC. Cafodd Gorchymyn Cadw Coed (GCC) ei weithredu ar 31ain Gorffennaf 2018 a daeth un llythyr o gefnogaeth a thri llythyr o wrthwynebiad i law o ganlyniad i ymgynghoriad cyhoeddus. Cafodd y pryderon a godwyd eu gosod allan yn yr adroddiad ynghyd â sylwadau'r swyddogion yn eu cylch. Roedd Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu unwaith eto wedi nodi, er y sylwadau yn ymwneud â dail a phryderon ynghylch canghennau uwchben, ni fyddai cadarnhau GCC yn atal gwaith rhag rheoli'r coed yn y dyfodol.



Er bod estheteg weledol coeden neu goed yn fater goddrychol roedd y canllawiau gwrthrychol ar gyfer gweithredu Gorchymyn Cadwraeth Coed oll wedi'i bodloni'n ddigonol gan y grŵp o dan sylw gan gymryd i ystyriaeth meini prawf yn ymwneud â gwelededd, effaith unigol a lletach. Ystyriai'r Swyddogion y gellid diogelu'r goeden am ei bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ei chynnwys mewn GCC a byddid yn cadw'r goeden er mwyn ei mwynder gweledol. Argymhellwyd felly y dylid cadarnhau Gorchymyn Cadwraeth Coed 141.

PENDERFYNWYD cadarnhau Gorchymyn Cadwraeth Coed 141.

